**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.00am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, ddydd Iau 7 Medi 2017**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John Davies, Illtud Dunsford, Helen Howells, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** Gary Haggaty, Gareth Wilson a Kayleigh John (Llywodraeth Cymru)

**Y Weithrediaeth:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

**Tîm Rheoli o Eitem 6:** Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad o'r prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd a fynychwyd ganddo ers ei benodi'n Gadeirydd HCC ar 21 Gorffennaf 2017:-

- Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod o'r Byrddau Ardoll ar 17 Gorffennaf 2017 – gweler Eitem 13.
- Ymunodd y Cadeirydd â Bwrdd a staff HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 2017 a mynychodd lawer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd i'r diwydiant.
- Primyn Môn – cyfarfu'r Cadeirydd â'r Ysgrifennydd Cabinet, yr Undebau Amaethyddol, a'r CLA a bu'r sgwrsio gyda nifer o randdeiliaid.
- Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Ford Gron Brexit ERA yr Ysgrifennydd Cabinet ar 27 Awst 2017.
- Byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn annerch Cyngor Undeb Amaethwyr Cymru ar ôl y cyfarfod o'r Bwrdd.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Huw Davies.

3. **<u>Datganiad o Fuddiannau</u>**

Cafwyd datganiad o fuddiannau gan John Davies yn Eitem 12, sef Adborth o Sioe Frenhinol Cymru 2017.

4. **<u>I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 6 Gorffennaf 2017 (HCC 761)</u>**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 6 Iau 2017 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

*<u>Adolygiad o Ystodau Pwysau Ŵyn Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ)</u>*

Rhoddwyd cyflwyniad byr ynglŷn â'r uchod gan Reolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant.

Nid oedd y system adrodd prisiau gyfredol ar gyfer cig oen yn ofyniad statudol, yn wahanol i gig eidion. Fodd bynnag, roedd y system adrodd prisiau gyfredol ar gyfer cig oen wedi bodoli ers sawl blwyddyn, ac felly roedd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), HCC, Quality Meat Yr Alban (QMS) a Chymdeithas yr Arwerthwyr Da Byw (LAA) wedi cytuno ei bod hi'n bryd adolygu'r systemau prisio a phwyso.
Byddai tri dewis yn cael eu hystyried:-

Dewis 1: Parhau â'r ystodau SQQ presennol
Dewis 2: Cael ystod pwysau trwm yn lle'r ystod pwysau ysgafn
Dewis 3: Ailddiffinio'r holl ystodau pwysau

Rhagwelwyd y ceid ymgynghoriad â'r diwydiant ledled Prydain ddiwedd mis Medi 2017, a chyflwynid unrhyw newidiadau yn ystod gwanwyn 2018, cyn i'r ŵyn tymor newydd gael eu marchnata.

Cytunwyd i rannu'r ddolen i'r ymgynghoriad â'r Bwrdd ac i baratoi papur ar y canlyniad ar gyfer y cyfarfod o'r Bwrdd ar 11 Ionawr 2018.

*<u>Staff</u>*

Cafodd John Richards ac Owen Roberts eu llongyfarch gan y Bwrdd am gael eu penodi, yn ôl eu trefn, yn Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant a Rheolwr Cyfathrebu.

Nododd y Prif Weithredwr eu bod wrthi'n recriwtio ar gyfer y swyddi a ganlyn:-:

Rheolwr / Arweinydd Strategaeth a Darpariaeth Corfforaethol
Swyddog / Swyddog Gweithredol Datblygu'r Farchnad yn y DG
Swyddog / Swyddog Gweithredol Datblygu'r Farchnad Allforio

Swyddog / Swyddog Gweithredol Dadansoddi Data
Swyddog / Swyddog Gweithredol Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi

Câi’r hysbyseb am y swyddi ei rhannu gyda’r Bwrdd er gwybodaeth, a phan fyddai’n briodol er mwyn cymell ceisiadau.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 762)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

Cytunwyd cynnwys penawdau cyllideb yn yr Adroddiad Gweithgareddau yn y dyfodol.

*Wythnos Caru Cig Oen 1 – 7 Medi 2017*

Dywedodd y Rheolwr Cyfathrebu fod HCC yn ymwneud â’r ymgyrch ledled y DG gyda gweithgareddau Cysylltiadau Cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol ar Facebook, Twitter ac Instagram.

Fel rhan o’r ymgyrch, roedd HCC wedi defnyddio’r pen-cogyddion Francesco Mazzei ac Imran Nathoo i godi proffil Cig Oen Cymru PGI. Defnyddiodd y pen-cogydd Eidalaidd Francesco ieuau ac arennau Cig Oen Cymru PGI i greu saig Stigghiola, a chreodd Imran Nathoo, a gyrhaeddodd y rownd gyn-derfynol yn y gyfres deledu *Masterchef*, gebabau Cig Oen Cymru PGI yn y digwyddiad cyntaf mewn cyfres o dai bwyta dros dro.

Hefyd, rhoddwyd sylw i Gig Oen Cymru PGI ar un o raglenni BBC 2, *Nadiya’s Great British Food Adventure*. Bu Nadiya a’r criw ffilmio ar fferm Ysgolor HCC, Richard Roderick, i weld y gwaith sy’n cael ei wneud gan ffermwyr cyn bod Cig Oen Cymru PGI yn cyrraedd yr archfarchnadoedd a’r siopau cig.

Yn ogystal, yn ystod Wythnos Caru Cig Oen, bu HCC yn gweithio mewn partneriaeth ag Aga, er mwyn cynnal arddangosiadau coginio Cig Oen Cymru PGI mewn amryw o siopau Aga.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 763)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

c. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 764)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

d. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Mehefin 2017 (HCC 765)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Nodwyd y byddai cynrychiolydd o'r archwilwyr penodedig KTOwens & Thomas Cyf yn bresennol yn HCC yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn ymgymryd â'r archwiliad mewnol.

Rhoddid adroddiad am ganfyddiadau'r archwiliad mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ar 2 Tachwedd 2017.

e. *I gael briff llafar ar Gynhadledd Flynyddol HCC Ddydd Iau 9 Tachwedd 2017*

Roedd trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer yr uchod, a gynhelid yng Ngwesty'r Fro, Parc Hensol, Hensol, Caerdydd. Roedd trefniadau ar gyfer y siaradwyr yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd.

Cadarnhawyd y byddai'r Ysgrifennydd Cabinet yn bresennol yn y gynhadledd.

Thema'r gynhadledd fyddai Camu i'r Dyfodol: Cig coch Cymru a'r cwsmer cyfoes.

Byddai'n rhaid i'r Bwrdd gymryd rhan mewn Fforwm Talwyr Ardoll lle byddai gan dalwyr ardoll gyfle i holi'r Bwrdd. Câi'r Fforwm ei ffrydio'n fyw trwy gyfrwng Facebook.

Câi briffiad llawn ei baratoi ar gyfer y Bwrdd cyn y gynhadledd.

7. **Pwyllgorau HCC**

I dderbyn Cofnodion y cyfarfodydd Pwyllgor a ganlyn:-

a. *Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg – Ddydd Llun 26 Mehefin 2017 (HCC 766)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

b. *Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu – Ddydd Mawrth 27 Mehefin 2017 (HCC 767)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

c. *<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata – Ddydd Mawrth 11 Gorffennaf 2017 (HCC 768)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

d. *<u>Y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth – I gymeradwyo enwebiadau ar gyfer aelodau allanol (HCC 769)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau â'r Diwydiant yn trafod yr enwebiadau arfaethedig yn y papur gyda Chadeirydd y Pwyllgor, Huw Davies, y tu allan i'r cyfarfod.

Yn y cyfamser, awgrymwyd y dylai enwebiadau gan y Bwrdd gael eu cyfeirio'n uniongyrchol at y Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau â'r Diwydiant.

8. **<u>I dderbyn papur drafft yn amlinellu cynllun strategol HCC hyd at 2025 (HCC 770)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cafodd y ddogfen ei pharatoi er mwyn i'r Bwrdd ei hystyried yn dilyn y Gweithdy Cynllunio a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2017. Dyma oedd y defnydd cyntaf o Strategaeth HCC ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru hyd at 2025 a gâi ei defnyddio ar gyfer y Cynllun Corfforaethol 2018 / 2021 ac, yn ei dro, y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2018 / 2019.

Roedd y weledigaeth a gyflwynwyd yn fwriadol strategol ac wedi'i hanelu'n uchel er mwyn ysgogi trafodaeth ac er mwyn i'r Bwrdd gadarnhau ei fod yn fodlon â'r cyfeiriad arfaethedig.

Unwaith y ceid cytundeb ynghylch y cyfeiriad, câi'r naratif, gweithgareddau a dyraniad adnoddau eu helaethu. Byddai hyn yn cynnwys darparu fel bod y diwydiant yn barod ar gyfer effaith Brexit ar y farchnad gartref a'r farchnad allforio.

Cytunodd y Bwrdd ei fod yn fodlon â'r cyfeiriad a amlinellir yn y Cynllun Strategol drafft a'i fod yn sail cynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol.

Y llinell amser arfaethedig ar gyfer datblygu'r Cynllun Strategol oedd y canlynol:-

| | | |
|---|---|---|
| **Rhan 1** | Bwrdd HCC i ystyried y Weledigaeth hyd at 2025 a'r cyfeiriad ar gyfer cynllunio. | **Medi 2017** |
| **Rhan 2** | Bwrdd HCC i ystyried y Cynllun Strategaeth Corfforaethol 2018 / 2021 | **Tachwedd 2017** |
| **Rhan 3** | 2018Bwrdd HCC i ystyried y Cynllun Gweithredol drafft 2018 / 2019 | **Ionawr 2018** |
| **Rhan 4** | Bwrdd HCC i gymeradwyo'r Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol er mwyn eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth a chyhoeddi'r Llythyr Cylch Gwaith rhwng Llywodraeth Cymru a HCC. | **Mawrth 2018** |

Gwahoddwyd y Bwrdd i gysylltu a'r Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol yn uniongyrchol pe bai'n dymuno cyfrannu ymhellach at y ddogfen.

9. **<u>I gymeradwyo Cynllun Gweithredol HCC ar gyfer 2017 / 2018 (HCC 771)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd yn amodol ar ychwanegu gweithrediadau yn y Cynllun Gweithredol ynghylch cynllunio wrth gefn mewn perthynas â Brexit ar gyfer y sector defaid. Byddai hyn yn cynnwys adolygu cynnydd ynghylch arloesedd, ymgysylltu â'r sector manwerth ac ymarferoldeb ymyraethau gan y gadwyn gyflenwi.

Byddai'r Prif Weithredwr yn ymateb felly i'r Llythyr Cylch Gwaith a dderbyniwyd oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet.

10. **<u>I gymeradwyo Cynllun Corfforaethol HCC ar gyfer 2017 / 2020 (HCC 772)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

11. **<u>EIDCymru</u>**

*<u>I gael, er gwybodaeth, Cyfrifon Blynyddol EIDCymru ar gyfer 2016 / 2017 (HCC 773)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

12. **<u>I gael adborth am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 2017</u>**

Cytunwyd y dylid paratoi gwerthusiad o bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 2017. Câi hyn ei ddatblygu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu ar 12 Hydref 2017

13. **<u>I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>**

Rhoddwyd y sefyllfa ddiweddaraf i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr:-

Cafwyd dau gyfarfod rhwng y Byrddau Ardoll oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd. Ystyriwyd Amodau Gorchwyl i'r Grŵp Llywodraethiant ynghyd â blaenoriaethau gweithgareddau ar gyfer y tri Bwrdd Ardoll. Rhagwelwyd y byddai'r gwaith yn parhau yn ystod y misoedd nesaf er mwyn cytuno ar raglen a fyddai'n dechrau ym mis Ebrill 2018 er mwyn gwneud defnydd o'r £2m a gafodd ei neilltuo.

Cynhelid y cyfarfod nesaf rhwng pawb ar 29 Medi 2017.

14. **<u>Papurau er gwybodaeth</u>**

a. *<u>Perfformiad ariannol cyfredol y ffermydd sydd yn Sector Cig Coch Cymru</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

b. *<u>Rhaglen Cyswllt Ffermio (HCC 775)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

15. **<u>I ystyried chwe mis cyntaf y Cyfarwyddwyr Anweithredol ar Fwrdd HCC</u>**

Am fod chwe mis wedi mynd heibio ers i aelodau'r Bwrdd gael eu penodi, teimlai'r Cadeirydd ei bod hi'n bryd gwahodd adborth ganddynt ynghylch eu swyddogaethau fel Cyfarwyddwr Anweithredol.

Cafodd Aelodau'r Bwrdd eu hatgoffa gan y Cadeirydd taw eu swyddogaeth fel Cyfarwyddwyr Anweithredol oedd herio'n adeiladol a helpu i ddatblygu argymhellion yn ymwneud â'r Cynlluniau Corfforaethol / Gweithredol. Dylai Cyfarwyddwyr Anweithredol graffu ar berfformiad y rheolwyr wrth ddiwallu'r amcanion cytunedig a monitro sut mae perfformiad yn cael ei adrodd. Dylent fod yn fodlon ar gywirdeb gwybodaeth ariannol ac yn fodlon bod dulliau rheoli a systemau rheoli risg yn gadarn ac amddiffynadwy.

Nodwyd bod gweithrediadau'r sefydliad o ddydd o ddydd yn cael eu harwain gan y Prif Weithredwr ac yn cael eu gweithredu gan y Weithrediaeth.

Cytunwyd y dylid paratoi papur ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd i amlinellu swyddogaeth y Cyfarwyddwyr Anweithredol.

16. **<u>Unrhyw fater arall</u>** - Dim.

17. **<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>** – Dydd Iau 2 Tachwedd 2017.

**Llofnodwyd……………………………**
**Cadeirydd HCC**